# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sonia Williams (Cadeirydd) (ar gyfer eitemau 1 i 4 ac eitem 6)<br>Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd) (yn y Gadair ar gyfer eitem 5)<br><br>Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowlie, Euryn Morris, Pip O'Neill, Dylan Rees, Margaret Murley Roberts a Liz Wood<br><br>Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd) (ar gyfer eitem 5) |
| **WRTH LAW:** | Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitem 5),<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 4),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd (Gweddarlledu) (CH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr John Ifan Jones a Derek Owen.<br><br>Prif Weithredwr |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion,<br>Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio dros Tai a Diogelwch Cymunedol,<br>Cynghorydd Dyfed W Jones – Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd),<br>Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo,<br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg,<br>Cynghorydd Ieuan Williams – Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd.<br><br>Sian Williams – Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru – Cyfoeth Naturiol Cymru (ar gyfer eitem 4);<br>Lyndsey Campbell Williams – Medrwn Môn (ar gyfer eitem 5);<br>Rita Stewart – MônCF (ar gyfer eitem 5);<br>Danielle Owen – Cyngor ar Bopeth Ynys Môn (ar gyfer eitem 5). |

---

### 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

### 2 DATGAN BUDD

Bu i’r Cynghorydd Sonia Williams ddatgan budd personol a oedd yn rhagfarnu yn Eitem 5 – Cynllun Strategol Trechu Tlodi gan ei bod yn Aelod o'r Bwrdd Trechu Tlodi. Gadawodd y Cynghorydd Williams y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a’r bleidlais.

Bu i’r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan budd personol yn Eitem 4 - Craffu ar Bartneriaeth Strategol - Cyfoeth Naturiol Cymru gan ei fod yn Aelod o Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2026 yn gywir.

**MATERION YN CODI**

**Diweddariad ar weithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, Ynys Môn 2022/2026**

Atodwyd yr ohebiaeth ganlynol at Raglen y Pwyllgor er gwybodaeth:-

- Gohebiaeth wedi’i hanfon gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini at Mr Adam Price AS;
- Ymateb wedi’i dderbyn gan Mr Adam Price AS;
- Gohebiaeth wedi’i hanfon gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini at Mr Steve Reed AS;
- Ymateb wedi’i dderbyn ar ran Mr Steve Reed AS.

Dywedodd yr Is-gadeirydd fod datganiad wedi'i wneud bod cyllid grant y DU yn ystyried dyfarnu'r grantiau i'w gweinyddu gan awdurdodau lleol yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Holodd a fydd y cyllid yn cael ei ddyfarnu i'r cyrff sefydledig h.y. y Cydbwyllgorau Corfforedig (CBCau). Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr nad oedd yn gallu cadarnhau sut y bydd y cyllid yn cael ei ddyfarnu ar hyn o bryd.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y bydd cyllid y Gronfa Twf Lleol yn cael ei ddyfarnu i awdurdodau lleol yn y flwyddyn gyntaf. Cyfeiriodd at yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU sy’n nodi eu bod o'r farn bod cyllid grant y Gronfa Ffyniant Gyffredin a’r Gronfa Twf Lleol yn ddwy ffordd wahanol o ariannu. Dywedodd ymhellach fod y llywodraeth flaenorol yn y Senedd wedi dweud bod cyllid yr ail a'r drydedd flwyddyn i'w ddyfarnu i'r CBCau rhanbarthol. Mae CBC Gogledd Cymru wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, Mr Adam Price AS i weld a yw'r cyllid i'w ddyfarnu i'r cyrff rhanbarthol neu i'r Awdurdodau Lleol. Nododd eu bod yn disgwyl ymateb gan Weinidog y Cabinet.

## 4 CRAFFU AR BARTNERIAETH STRATEGOL – CYFOETH NATURIOL CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd Sian Williams – Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru – Cyfoeth Naturiol Cymru i'r cyfarfod.

Rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru gyflwyniad llafar i'r cyfarfod a thynnodd sylw at uchelgais Cyfoeth Naturiol Cymru drwy eu Cynllun Corfforaethol, sef cefnogi adferiad natur, datblygu gwytnwch i newid hinsawdd mewn cymunedau a lleihau llygredd ac atal niwed i'r amgylchedd. Tynnodd sylw at rôl a chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru fel corff rheoleiddio sy'n cynghori ac yn rheoleiddio'r dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a sicrhau canlyniadau llesiant. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddiwr ar y diwydiant dŵr. Adroddwyd manylion y prosiectau strategol ar Ynys Môn i'r Pwyllgor ac yn benodol datblygiad Wylfa - Gwyndod, y Porthladd Rhydd, Coedwig Niwbwrch a Llanddwyn. Tynnwyd sylw at wybodaeth bellach ynglŷn â sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb i risgiau Newid yn yr Hinsawdd yn sgil tonnau gwres a sychder, ffermio a chynhyrchu bwyd, peryglon llifogydd ac erydiad, adeiladu a chynnal a chadw

amddiffynfeydd.  Tynnodd sylw ymhellach at y gwaith a wnaed gyda chymunedau lleol a'r Awdurdod Lleol ynglŷn â materion traffig drwy bentref Niwbwrch ac mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â'r problemau parcio i rai sy'n ymweld â Llanddwyn.  Cyfeiriodd ymhellach at yr angen i gau Coedwig Niwbwrch dros y penwythnos oherwydd risgiau tân posibl.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor:-

- Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r cynlluniau sydd yn eu lle i ddelio â'r risgiau posibl o danau gwyllt, yn enwedig yng Nghoedwig Niwbwrch a Llanddwyn, ac a yw'r cynlluniau hyn wedi'u rhannu gyda'r Awdurdod Lleol a chyrff eraill sy'n bartneriaid. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru fod cynlluniau argyfwng yn eu lle, a bod trafodaethau dyddiol yn cael eu cynnal, yn enwedig yn ystod y don wres, ynglŷn â'r risgiau posibl o danau gwyllt, fel sy'n digwydd ym Mwlch Sychnant.  Mae mapiau gwagio yn cael eu rhannu gyda'r Gwasanaethau Brys a'r Awdurdod Lleol os oes angen i bobl adael safleoedd.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r pwerau rheoleiddio sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru dros Ddŵr Cymru ac yn enwedig achosion yn ymwneud â charthffosiaeth.  Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru mai Ofwat yw'r rheoleiddiwr statudol a'u bod yn ddiweddar wedi cynnig pecyn gorfodi gwerth £44.7m yn dilyn ei ganfyddiadau bod Dŵr Cymru wedi torri ei rwymedigaethau cyfreithiol wrth weithredu ei waith trin dŵr gwastraff a'i rwydwaith.  Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gorfodi Dŵr Cymru i roi systemau monitro ar waith dros y blynyddoedd diwethaf.  Nododd, os oes ardaloedd sy'n cael effaith ar yr amgylchedd, yna gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio pwerau gorfodi i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau statudol.
- Gofynnwyd p'un ai a oedd cyfleusterau parcio ar ochr Malltraeth wedi cael eu hystyried i ysgafnhau'r pwysau ar y rhwydwaith priffyrdd tuag at Draeth Llanddwyn a Choedwig Niwbwrch.  Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru fod cyfleusterau parcio ar ochr Malltraeth wedi cael ei grybwyll yn ystod sesiynau galw heibio yng nghymuned Niwbwrch.  Nododd fod gan bob opsiwn ei fanteision/anfanteision a bod risgiau yn enwedig ynglŷn ag ardal Malltraeth gan ei bod yn ardal llawer tawelach ac yn hafan i fywyd gwyllt ac adar; byddai angen ystyried goblygiadau ac effeithiau creu ffordd drwy'r ardal. Mae gwahanol opsiynau wedi'u hystyried er mwyn lliniaru'r problemau traffig ynghyd â'r posibilrwydd o greu cyfleusterau parcio a theithio i ffwrdd o'r ardal a allai fod yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â phwy sydd wedi cyfrannu at y Cynllun Argyfwng Tân ar gyfer Llanddwyn a Choedwig Niwbwrch.  Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru gan mai Cyfoeth Naturiol Cymru yw perchennog y tir, y corff hwnnw sy'n gyfrifol am y Cynllun Argyfwng.  O ran Diogelwch Ymwelwyr a Chymunedol, byddai'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am sicrhau bod gan bobl le diogel i gael eu hadleoli pe bai angen eu symud o'r ardal.  Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y byddai gan yr Awdurdod Lleol ac Asiantaethau Brys eraill rôl a chyfle i gyfrannu at y Cynllun Argyfwng.  Nododd fod angen adolygu'r Cynllun oherwydd y tonnau gwres a'r gwyntoedd uchel er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau tân posibl fel y gwelwyd yn ardal Conwy yn ystod y dyddiau diwethaf.  At hyn, dywedodd fod y Cyngor yn ymwybodol o gynnwys y Cynllun Argyfwng ond bod lle i adolygu ei gynnwys.  Codwyd cwestiynau ymhellach ynghylch a yw lefelau bygythiad tanau posibl ar y safle yn cael eu monitro ac ydi'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn cyfrannu at y cynllun?  Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru fod unrhyw fygythiad posibl yn sgil tân yn cael ei fonitro'n gyson, ac y gellir trefnu cyfarfod amlasiantaethol.
- Cyfeiriwyd at ddeiseb i'w chyflwyno i'r Senedd ar gyfer brechu Gwiwerod Coch oherwydd brech y gwiwerod. Gofynnwyd a yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r ddeiseb am frechu'r Gwiwerod Coch yn erbyn brech y gwiwerod.  Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru fod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r Senedd.  Nododd fod trafodaethau hefyd wedi'u cynnal gyda

England Natural Heritage a'r Scottish Natural Heritage ynghylch ymchwil i frechu Gwiwerod Coch a'r bwriad yw adolygu budd brechu a sut y byddai rhaglen frechu yn gweithio. Ystyrir y byddai rhaglen ar lefel y DU yn fwy buddiol nag yng Nghymru yn unig.

- Cyfeiriwyd at strwythur cyflogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gyda 2,278 o weithwyr. Gofynnwyd a yw'r lefel yma o staff sy'n gweithio i Cyfoeth Naturiol Cymru yn uchel. Amlinellodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru strwythur rheoli a chyflogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Nododd, gan fod gofynion a gwaith eang yn cael ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ei bod yn angenrheidiol cael strwythur cyflogaeth cadarn. Dywedodd ymhellach fod tua 200 o staff yn gweithio yn y Gogledd-orllewin. Gofynnwyd ymhellach a yw'r strwythur staffio ar gyfer y Gogledd-orllewin yn ddigonol i wneud y gwaith. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru fod y strwythur staffio yn y Gogledd-orllewin yn heriol ond bod yn rhaid iddynt ymgymryd â'u gofynion statudol.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb i ddatblygiadau cynllunio mewn perthynas â llifogydd posibl yn sgil lefelau dŵr yn codi. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghorai statudol o fewn y broses gynllunio. Nododd, os cyflwynir cais cynllunio ar gyfer datblygiad mawr, y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd. Byddai hwn yn mesur y perygl posibl o lifogydd i'r ardal gyfagos a gall Cyfoeth Naturiol Cymru wrthwynebu'r datblygiad os ydynt o'r farn y byddai'r cais yn risg. Dywedodd ymhellach fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghorai statudol o fewn y broses Cynllun Datblygu Lleol pan ystyrir datblygiadau newydd o ran capasiti rhwydwaith carthffosiaeth a thrin carthffosiaeth. Dywedodd fod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r Awdurdod Cynllunio i ystyried perygl llifogydd ac unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'r cais. Codwyd cwestiynau pellach ynglŷn â pherygl posibl llifogydd o afonydd oherwydd datblygiadau cyfagos. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru mai cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw afonydd llai ac mai Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am afonydd mawr. Nododd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn paratoi'r Mapiau Perygl Llifogydd a'u bod yn cael eu rhannu gyda'r Awdurdod Lleol. Codwyd cwestiynau ychwanegol ynglŷn â chlirio sbwriel o afonydd a ph'un ai a yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal archwiliadau rheolaidd i glirio'r afonydd. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru fod archwiliadau ychwanegol yn cael eu cynnal yn ystod misoedd y gaeaf yn hytrach nag yn ystod misoedd yr haf gan fod mwy o lystyfiant sy'n ei gwneud hi'n anodd gallu mynd i mewn i'r afonydd. Nododd y gall y cyhoedd roi gwybod am unrhyw berygl posibl o lifogydd trwy system gwyno ar-lein a dros y ffôn.
- Gofynnwyd pwy sy'n gyfrifol am y cronfeydd dŵr sy'n cyflenwi dŵr yfed. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru mai Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am ddŵr yfed ac Ofwat yw'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Nododd mai Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am ddiogelwch cyhoeddus cronfeydd dŵr ac am wneud yn siŵr bod yr argaeau'n ddiogel.
- Gofynnwyd a yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn destun craffu ac a oes gan y cyhoedd gyfle i graffu ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfarfodydd cyhoeddus misol o'r Bwrdd a bod Aelodau'r Senedd hefyd yn craffu ar waith.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â rôl Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r ddwy bont ar draws Afon Menai. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru, gan fod gan Afon Menai yn cael ei diogelu drwy Ddeddfwriaeth Ewropeaidd, fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl gynghori o ran yr amgylchedd a'r dirwedd. Nododd fod trafodaeth wedi'i chynnal o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch y posibilrwydd o gael trydedd bont ar draws Afon Menai. Dywedodd ymhellach eu bod wedi holi barn pobl ifanc o Goleg Llandrillo/Menai ynglŷn â sut i ddatrys y problemau ynglŷn â chroesi'r Fenai yn y dyfodol.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i Bennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru am fynychu'r cyfarfod. Diolchodd i'r Pwyllgor am godi mater y Cynllun Argyfwng ac yn enwedig yng ngoleuni'r tanau gwyllt ar Fwlch Sychnant yn ystod y dyddiau diwethaf. Nododd ei bod yn bwysig cael Cynllun Argyfwng yn ei le, yn enwedig ar gyfer Coedwig Niwbwrch sydd â'r risg uchaf o danau gwyllt posibl.

**PENDERFYNWYD derbyn y cyflwyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru.**

**GWEITHREDU**

- **Bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y sefydliad sy'n gyfrifol am reoleiddio dŵr yfed yn ogystal ag esboniad ynglŷn â'r broses ar gyfer ystyried effeithiau'r datblygiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer yr Ynys mewn perthynas â darparu dŵr yfed.**

- **Bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu'r ddolen ar-lein briodol y gall Aelodau ei rhannu gyda'r etholwyr, gan amlinellu sut y gallant gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru yn uniongyrchol.**

## 5 CYNLLUN STRATEGOL TRECHU TLODI

Roedd yr Is-gadeirydd yn y Gadair gan fod y Cadeirydd wedi datgan budd personol a oedd yn rhagfarnu yn yr eitem.

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr adroddiad yn ddiweddariad ar gynnydd Trechu Tlodi ar draws Ynys Môn. Nododd fod 3 chynrychiolydd oedd yn bartneriaid o Fedrwn Môn, MônCF a Chyngor ar Bopeth Ynys Môn yn bresennol yn y cyfarfod hwn gan eu bod yn rhan o'r Cynllun Strategol Trechu Tlodi. Mynegodd rwystredigaeth y Cyngor a'r sefydliadau sy’n bartneriaid bod derbyn grantiau ar sail flynyddol yn rhoi pwysau i greu Strategaeth a fydd yn helpu i liniaru tlodi. Dywedodd ei fod yn Aelod o Fwrdd Medrwn Môn a MônCF ac wedi gweld y gwahaniaeth y mae cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i wneud i fudiadau'r trydydd sector.

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y cynrychiolwyr o'r 3 sefydliad sy’n bartneriaid yn delio â'r heriau o fynd i'r afael â thlodi bob dydd a chael pobl yn ôl i gyflogaeth yn enwedig, pan fyddant yn byw mewn ardaloedd gwledig, lle mae trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig. Mae effaith grantiau tymor byr yn heriol ac yn rhwystr i gynllunio'n strategol y tu hwnt i ddeuddeg mis. Nododd fod Grŵp Trechu Tlodi wedi'i sefydlu sy'n gweithredu fel fforwm strategol i ddod â gwasanaethau'r Cyngor a phartneriaid allweddol at ei gilydd i gydlynu’r gwaith o weithredu a rhannu gwybodaeth.

Dywedodd Lyndsey Campell-Williams, Medrwn Môn fod cynnydd wedi bod yn nifer y teuluoedd sy'n wynebu tlodi oherwydd cynnydd mewn rhenti, prisiau bwyd, biliau cyfleustodau a thanwydd. Nododd fod grwpiau gwirfoddoli yn ei chael hi'n anodd denu pobl i fynychu sesiynau oherwydd y costau cynyddol o fynychu'r gweithgareddau hyn. Dywedodd hefyd fod Medrwn Môn wedi bod yn cydweithio â MônActif i gynnig aelodaeth o gampfa i bobl ifanc, ond mai dim ond ychydig o sesiynau y gall rhai ohonynt eu mynychu gan eu bod yn ei chael hi'n anodd dod i’r sesiynau oherwydd costau tanwydd cynyddol neu am nad yw aelodau o'r teulu a gofalwyr yn gallu dod â nhw i'r sesiynau hyn. Mynegodd ei bod yn amhosibl cynllunio prosiectau tymor hir oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y grantiau blynyddol a dderbynnir.

Dywedodd Rita Stewart, MônCF fod cynnydd wedi bod mewn tlodi ymysg pobl mewn gwaith oherwydd yr argyfwng costau byw gyda'r cynnydd mewn costau bwyd, biliau cyfleustodau, rhenti a thanwydd. Mae cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi dod i ben, ac mae'r holl gymorth mewnol wedi dod i ben sy'n golygu nad yw 350 o bobl yn derbyn cymorth trwy'r cyllid hwn. Gyda chyllid y Gronfa Twf Lleol newydd y gobaith yw y gellir cadw'r cymorth ariannol i'r bobl hyn. Nododd fod MônCF fel mudiad trydydd sector yn wynebu heriau ychwanegol wrth dderbyn cyllid gan nad oes cyllid craidd ar gael. Rhaid i'r holl geisiadau am arian grant gael eu gwneud gan y Tîm ym MônCF. Ar hyn o bryd mae MônCF yn dibynnu ar gronfeydd elusennol bach am gyllid. Dywedodd Ms Stewart ymhellach fod buddsoddi yn eu staff yn flaenoriaeth ond oherwydd yr ansicrwydd ynghylch cyllid, mae staff yn gwneud ceisiadau am gyflogaeth sy'n cynnig mwy o sicrwydd iddynt. Ar ôl i gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin ddod i ben, diswyddwyd 7 aelod o staff a oedd yn unigolion medrus. Pwysleisiodd y dylid darparu arian grant am gyfnod hirach gan fod gwneud cais am grantiau bob blwyddyn yn achosi pwysau ac ansicrwydd.

Dywedodd Danielle Owen, Cyngor ar Bopeth Ynys Môn fod mwy o bobl ag anghenion cymhleth mewn tlodi oherwydd yr argyfwng costau byw. Nododd fod pobl mewn cyflogaeth ran-amser, cyflogaeth lawn a hunangyflogedig yn cael trafferth cwrdd â gofynion y cynnydd mewn bwyd, rhenti, biliau ynni a thanwydd. Dywedodd y byddai cyllid hirdymor yn fuddiol i gefnogi pobl yn y cymunedau. Mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi CAB gyda chyllid craidd ac ni fyddai cymorth ar gyfer dyledion ar gael heb y cyllid hwn. Mae ansicrwydd i staff pan dderbynnir cyllid bob blwyddyn.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod cyllid grant y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn galluogi mynediad at hyfforddiant ac yn rhoi cyfle i unigolion ddychwelyd i gyflogaeth. Nododd, er bod y Pwyllgor hwn wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU ynglŷn â'r newidiadau i gyllid grantiau, mae'n ymddangos eu bod yn creu problemau wrth beidio â sylweddoli bod y newidiadau yn y fformiwla ariannu yn cyfyngu ar risgiau capasiti refeniw sy'n gwanhau'r strwythurau cyflawni sydd wedi bod yn llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd ymhellach fod Arweinwyr y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru drwy CLILC wedi ysgrifennu at y Llywodraeth i fynegi na ddylent newid y fformiwla ariannu. Derbyniwyd y cyllid grant gan yr Awdurdodau Lleol ac fe'i rhannwyd gyda mudiadau'r trydydd sector i wneud y defnydd gorau o'r cyllid er budd pobl mewn tlodi.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor:-

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod MônCF wedi cysylltu â'r Pwyllgor hwn ddwy flynedd yn ôl i ddweud bod mwy o bobl oedrannus yn gofyn am gymorth i fynd yn ôl i'r gwaith. Gofynnwyd a yw'r sefyllfa hon wedi newid. Mewn ymateb, dywedodd Rita Stewart, MônCF fod pobl dros 65 oed yn gofyn am gymorth i fynd yn ôl i'r gwaith gan nad ydyn nhw'n gallu byw ar Bensiwn y Wladwriaeth. Gwnaed sylwadau pellach gan y Pwyllgor bod rhai pobl ar Bensiwn y Wladwriaeth yn cael trafferth ac nad ydynt yn gofyn am gymorth yn ystod yr argyfwng costau byw gyda phrisiau bwyd a chyfleustodau uchel. Mewn ymateb, dywedodd Lyndsey Campbell-Williams, Medrwn Môn fod yr henoed sy'n cael trafferth weithiau'n fwy amharod i ofyn am help a chefnogaeth. Nododd fod ymgysylltu â'r gymuned yn bwysig i wybod am bobl sydd angen cymorth.
- Cyfeiriwyd at y ffaith y byddai'n fanteisiol cael Adroddiad Asesu Effaith gan fudiadau'r trydydd sector i fynd i'r afael â'r effaith ar y newidiadau yn y fformiwla ariannu gyda chyllid y Gronfa Twf Lleol. Byddai'n dystiolaeth i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r effaith y bydd yn ei chael gyda 70% o refeniw a 30% o refeniw. Argymhellwyd ar ôl derbyn yr Adroddiadau Asesu Effaith y dylid anfon gohebiaeth bellach at y ddwy lywodraeth i bwysleisio y dylai'r cyllid fod yr un fath â model cyllido blaenorol y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd y gellir rhagweld effaith y newid yn y fformiwla ariannu a byddai'n fanteisiol ysgrifennu at y ddwy lywodraeth i ddweud y dylai Llywodraeth y DU ailystyried eu dull oherwydd y goblygiadau sylweddol y bydd yn eu cael i swyddi a ariennir gan refeniw ar yr Ynys.

- Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r cydweithio gyda'r Awdurdod Lleol a'r bartneriaeth gyda Medrwn Môn, MônCF a CAB. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod cyswllt dyddiol gyda'r tri sefydliad rhwng gwasanaethau'r Awdurdod Lleol. Nododd fod defnyddio Dangosfwrdd wedi amlygu tlodi a bod llai o ddyblygu gwasanaethau gan y Cyngor a mudiadau'r trydydd sector. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch a yw mudiadau'r trydydd sector o'r farn y gallai'r Cyngor weithio'n well gyda'r mudiadau. Roedd mudiadau'r trydydd sector i gyd yn cytuno bod perthynas waith dda rhwng y Cyngor a'r trydydd sector dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi'r arfer da rhwng y Cyngor a'r trydydd sector o ran y Rhaglen Creu Lleoedd a'r gwaith gyda Chynghreiriau Cymunedol. Fodd bynnag, gwnaed sylwadau y gellid dosbarthu'r cyllid a dderbyniwyd drwy'r Awdurdod yn fwy prydlon gyda'r trydydd sector. Dywedodd yr Arweinydd, gan eu bod yn derbyn grant bob blwyddyn, gall y broses o wneud cais am grant gymryd amser. Dywedodd y byddai, fel Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, yn ystyried y sylwadau ac yn eu cynnwys fel pwynt gweithredu ar gyfer dosbarthu'r grant yn fwy prydlon i'r trydydd sector.
- Codwyd cwestiynau ynghylch a oes digon o gyllid ar gyfer Banciau Bwyd ar Ynys Môn ac a ydyn nhw'n gallu cefnogi pobl yn ystod yr argyfwng costau byw. Mewn ymateb, cytunodd pob un o'r 3 mudiad trydydd sector fod cyllid cynaliadwy hefyd yn broblem i gynnal Banciau Bwyd.

**PENDERFYNWYD:-**

- **derbyn y Cynllun Strategol Trechu Tlodi ar gyfer 2025/2026;**
- **nodi'r sylwadau ar flaenoriaethau gwaith Trechu Tlodi ar gyfer 2026/2027**
- **gofyn i'r tri mudiad trydydd sector gwblhau asesiadau effaith a defnyddio'r canfyddiadau i ysgrifennu ar y cyd ar ran y Pwyllgor at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gan dynnu sylw at effaith sylweddol rôl arfaethedig y CBC mewn perthynas â chyllid y Gronfa Twf Lleol ar Ynys Môn a dadlau dros ddychwelyd at fodel y Gronfa Ffyniant Gyffredin (70% refeniw, 30% cyfalaf) er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau lleol hanfodol barhau.**

**GWEITHREDU**

**Gofyn i'r tri sefydliad trydydd sector gwblhau asesiadau effaith a defnyddio'r canfyddiadau i ysgrifennu ar y cyd ar ran y Pwyllgor at Lywodraethau'r DU a Chymru, gan dynnu sylw at effaith sylweddol rôl arfaethedig CBC mewn perthynas â chyllid y Gronfa Twf Lleol ar Ynys Môn a dadlau dros ddychwelyd at fodel y Gronfa Ffyniant Gyffredin (70% refeniw, 30% cyfalaf) er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau lleol hanfodol barhau.**

**6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2026/2027**

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar y fersiwn bresennol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2026/2027;**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma wrth weithredu'r flaen raglen waith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.20 pm

**CYNGHORYDD SONIA WILLIAMS**
**CADEIRYDD AR GYFER EITEMAU 1 I 4 AC EITEM 6**

**CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**IS-GADEIRYDD AR GYFER EITEM 5**